WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Y Cynghorydd Huw David
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

**Cyfeirnod:** 907A2018-19

**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Tachwedd 2018

Annwyl Gynghorydd David

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2017-18

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ar faterion ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;

- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifon yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod). Mae'r Cod yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 12 Medi 2018 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiad y cyfrifon gan gadarnhau ei fod yn cyflwyno golwg gywir a theg ar sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae f'adroddiad wedi ei gynnwys o fewn datganiad y cyfrifon. Adroddwyd am y materion allweddol oedd yn codi o'r archwiliad wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn f'adroddiad 'Archwiliad Datganiadau Ariannol' ar 6 Medi 2018. Yn yr adroddiad hwn fe wneuthum gadarnhau bod ansawdd y cyfrifon drafft a'r cofnodion cysylltiedig a gyflwynwyd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi i safon uchel yn gyffredinol, gan adlewyrchu gwelliant parhaus y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

## Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol sylweddol

Mae cyllid cyni yn dal i fod yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu pob corff llywodraeth leol yng Nghymru ac mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau dros y cyfnod canolig. Bydd y setliad cyllido amodol diweddar i lywodraeth leol ar gyfer 2019-20 yn gweld setliad y Cyngor yn gostwng o £1.22 miliwn neu 0.6%. Mae'r gostyngiad canrannol hwn yn fwy na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan o 0.3%.

Yn 2017-18 fe wnaeth y Cyngor danwario ei wariant refeniw net o £6.5 miliwn (cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi). Ar 31 Mawrth 2018 roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio o £77.9 miliwn, sef £2.8 miliwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio o £77.9 miliwn yn cynnwys cronfeydd wedi eu clustnodi o £48.1 miliwn, cronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn o £21.2 miliwn, balans cronfa'r Cyngor o £8.3 miliwn, a chronfa grantiau cyfalaf heb eu defnyddio o £0.3 miliwn.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol 2018-19, mae'r Cyngor yn rhagweld, yn ei gyfrifon rheoli diweddaraf, y bydd yn sicrhau tanwariant gweithredol o £4.5 miliwn (cyn y trosglwyddiad a ragwelir i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi). Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor 2018-19 i 2021-22'[1] yn gosod cynigion o £32.6 miliwn ar gyfer lleihau'r gyllideb. O fewn y ffigur hwn mae £6.1 miliwn o'r gostyngiadau yn ymwneud â'r flwyddyn 2018-19, y mae'r Cyngor wedi nodi cynigion ar ei chyfer. O ran y ffigur o £26.5 miliwn sy'n weddill ar gyfer y tair blynedd hyd 31 Mawrth 2022, mae'r Cyngor wedi nodi gostyngiadau o £7.1 miliwn ac mae eto i ganfod gostyngiadau ar gyfer y £19.4 miliwn sy'n weddill.

## Rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae f'ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi ei seilio ar y gwaith archwilio a gyflawnwyd ar y cyfrifon yn ogystal â bod yn ddibynnol ar y gwaith a gwblhawyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

---

[1] Dyddiedig Chwefror 2018

Rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, er fy mod, yn fy 'Adroddiad Gwella Blynyddol''[2] ym mis Medi 2018, wedi tynnu sylw at y meysydd y gellid gwneud gwelliannau ynddynt.

Ar 12 Medi 2018 rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2017-18 wedi ei gwblhau.

## Nid yw fy ngwaith hyd yma ar ardystio hawliadau grant a ffurflenni adrodd wedi canfod problemau sylweddol a fyddai yn cael effaith ar y cyfrifon blynyddol neu ar systemau ariannol allweddol

Mae'r gwaith archwilio hwn yn parhau heb ddim materion sylweddol hyd yn hyn. Yn gynnar yn 2019, byddaf yn cyhoeddi fy adroddiad grantiau ar archwiliad hawliadau grant a ffurflenni adrodd 2017-18 y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei ystyried bob blwyddyn gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

## Ffioedd Archwilio Ariannol

Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a ddyfynnwyd yn y Cynllun Archwilio Blynyddol. Eglurir y ffi derfynol am fy archwiliad o hawliadau grant a ffurflenni adrodd 2017-18 y Cyngor yn fy adroddiad grantiau.

Yn gywir



**Derwyn Owen**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Cc: Darren Mepham, Y Prif Weithredwr
Gill Lewis, Swyddog Adran 151

---

2 http://www.audit.wales/system/files/publications/bridgend_council_annual_improvement_report_2017_18_welsh.pdf